CEREDIGION



ABERAERON to LAMPETER

A walk along the Aeron Valley



ABERAERON i LANBEDR PONT STEFFAN

Taith gerdded ar hyd Dyffryn Aeron

40c/p

YR ARFORDIR A'R CEFN GWLAD
COAST AND COUNTRYSIDE

Aberaeron i Lanbedr Pont Steffan

Dyma gyfle i gerdded ar hyd dyffryn hardd Dyffryn Aeron o Aberaeron i Abermeurig cyn croesi i Ddyffryn Teifi yn Llanbedr Pont Steffan. Wrth fynd ar y daith yma sy'n 21 milltir / 34km yn ei hyd byddwch yn dilyn llwybrau cyhoeddus a ffyrdd tawel cefn gwlad.

Aberaeron

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pentref pysgota bychan oedd Aberaeron. Fe welodd Alban Gwynne, tir berchennog lleol, bosibiliadau'r ardal a bu'n allweddol yn hyrwyddo Mesur drwy'r Senedd i adeiladu harbwr newydd. Ar ôl datblygu'r harbwr (1807-1811), datblygodd Aberaeron yn borthladd llewyrchus yn fuan iawn gyda diwydiant adeiladu llongau prysur. Mae Aberaeron bellach yn un o'r enghreifftiau prin hynny o drefi a gynlluniwyd ar ddechrau'r bedwaredd

Aberaeron to Lampeter

The walk follows the beautiful Aeron Valley from Aberaeron to Abermeurig before crossing to the Teifi Valley at Lampeter. This 21 miles / 34 km route follows both public paths and quiet country roads.

Aberaeron

At the start of the 19th century Aberaeron was a small fishing hamlet. Alban Gwynne, a local landowner, saw the potential of the area and promoted a Bill through Parliament to build a new harbour. After the development of the harbour (1807-1811), Aberaeron soon developed into a flourishing port with a busy ship building industry. Aberaeron is one of the rare examples of urban planning in the early 19th century - John Nash may have influenced the plan. Its wide streets, colourful terraces draw visitors from far afield. Much of the town is now designated as a Conservation Area.



Allwedd ar gyfer y Map

Map Key

Trywydd wedi'i ddynodi ar gyfer cerddwyr
Promoted route for walkers

Ffyrdd
Roads

Canolfan Croeso
Tourist Information Centre

Meysydd Parcio
Car Parking

Cyfleusterau cyhoeddus
Public toilets

© Hawlfraint y Goron. Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2009.
© Crown copyright, Ceredigion County Council, 100024419, 2009.

Ordnance Survey Map Landranger – 146
Ordnance Survey Map Explorer – 198 a 199

Cofiwch ddilyn y Cod Cefn Gwlad.

Ordnance Survey Landranger Map 146
Ordnance Survey Explorer Map 198 & 199

Please remember to follow the Country Code.

ganrif ar bymtheg – mae'n bosib y bu John Nash yn ddylanwadol o ran y cynllun. Daw ymwelwyr o bell ac agos i weld y strydoedd eang a'r terasau lliwgar. Erbyn hyn mae rhannau helaeth o'r dref yn Ardal Warchod.

Wrth gerdded drwy Goed Panteg, ar hyd glannau afon Aeron, mae'n bosib y gwelwch las y dorlan. Mae'r trochwyr a'r sigl-i-gwt i'w gweld yma hefyd. Plannwyd coed a llwyni ffrwythau yng nghanol y coed yn ffynhonnell ychwanegol o fwyd i'r adar. Yn ystod y gwanwyn mae'r cennin pedr a chlychau'r gog yn frith ar lawr y goedwig.

The walk through Panteg Woods, along the banks of the Aeron, may offer a chance encounter with a Kingfisher. Dippers and wagtails are often seen along here. Fruiting trees and shrubs have been planted in parts of the woodland, providing an added food source for many birds. During the spring there is often a good display of daffodils and bluebells in the woodland.

A short detour leads to the woodland trail at Allt y Graig, an oak and ash woodland managed by Aberaeron Town Council.

The 'Aberayron' Branch

The footpath passes through farmland along the Aeron Valley towards Llanerchaeron. Alternatively, the new cycleway can be used: this follows the route of the former 'Aberayron' Branch railway.

The 13½ mile branch line ran from Lampeter to Aberaeron ('Aberayron' to the railway company) was completed in 1911. The railway fed into the line linking Aberystwyth and Carmarthen. There were halts along the branch line at Llanerchaeron, Crossways, Ciliau Aeron,



© Hawlfraint y Goron. Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2009.
© Crown copyright. Ceredigion County Council, 100024419, 2009.

Os cewch gyfle, ewch ychydig oddi ar y llwybr gan ddilyn y trywydd i Allt y Graig, coedwig gymysg o goed derw ac ynn sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Tref Aberaeron.

Cangen 'Aberayron'

Â'r llwybr troed drwy dir amaethyddol ar hyd Dyffryn Aeron at Lanerchaeron. Fe allech ddefnyddio ffordd arall fodd bynnag – y llwybr beiciau newydd sy'n dilyn trywydd hen reilffordd Cangen 'Aberayron'.

Cwblhawyd y rheilffordd 13½ milltir o Lanbedr Pont Steffan i Aberaeron ('Aberayron' yn ôl y cwmni rheilffordd)

© Melvin Grey

© Hawlfraint y Goron. Cyngor Sir Ceredigion. 100024419. 2009.
© Crown copyright. Ceredigion County Council. 100024419. 2009.

ym 1911. Unai'r rheilffordd â'r lein a gysylltai Aberystwyth a Chaerfyrddin. Roedd yna orsafoedd yn Llanerchaeron, Crossways, Ciliau Aeron, Felin-fach, Talsarn, Blaenplwyf a Sililan. Ar ôl ei chau i deithwyr ym 1951 parhâi'r trenau llaeth i ddefnyddio'r lein rhwng Llanbedr Pont Steffan a'r ffatri laeth yn Felin-fach tan 1973.

Llanerchaeron

Mae'r rhamant a berthynai i Ddyffryn Aeron pan gynlluniodd John Nash blasty ysblennydd Llanerchaeron yn y

Felinfach, Talsarn, Blaenplwyf and Silian. After its closure to passengers in 1951, milk trains continued to run between Lampeter and the creamery at Felin Fach until 1973.

Llanerchaeron

The timeless landscape of the Aeron Valley gives the same romantic effect today as when John Nash designed the elegant Llanerchaeron mansion in the 1790's. Now in the care of the National Trust, it is a rare survivor of what was once a typical Welsh gentry country estate. It was bequeathed by John Powell Ponsonby Lewes on his death

in 1989. He could trace descent through the female line from Llewelyn Parry, who bought the estate of about 500 acres for £140 in 1634.

The mansion dates from the time of Colonel William Lewis. He commissioned John Nash to design the house around an existing building. Nash built Llanerchaeron between 1794 and 1796. The use of yellow

© Hawlfraint y Goron. Cyngor Sir Ceredigion. 100024419, 2009.
© Crown copyright. Ceredigion County Council. 100024419, 2009.

Mae'r llwybr troed hwn yn arwain i Felinfach, ble mae gwasanaeth bws rheolaidd yn rhedeg rhwng Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron.

This footpath provides a link to Felinfach where a regular bus service runs between Lampeter and Aberaeron.

© Melvin Grey

1790au i'w gweld o hyd yn ei natur ddigyfnewid. Y mae bellach yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn enghraifft brin o stadau gwledig uchelwyr Cymru. Fe'i gadawyd iddynt yn ewyllys John Powell Ponsonby Lewes ar ei farwolaeth ym 1989. Gallai olrhain ei olyniaeth drwy'i fam i Llewelyn Parry a brynodd yr ystâd oddeutu 500 erw am £140 ym 1634.

Mae'r plasty yn dyddio'n ôl i amser y Cyrnol William Lewis. Comisiynodd John Nash i gynllunio'r t ar sail adeilad oedd yno eisoes. Adeiladodd Nash Lanerchaeron rhwng 1794 a 1796. Defnyddiodd wyngalch ocr melyn ysgafn fel y bo'r t yn gweddu i'r wlad o'i amgylch. Aeth Nash yn ei flaen i gynllunio adain newydd Buckingham Palace a Regent's Park a Regent Street yn Llundain.

Fel yr oedd yn arferol am y cyfnod, roedd y gerddi a godwyd â wal o'u cwmpas ychydig i ffwrdd o'r plasty. Mae'r gerddi pleser a'r gerddi cynnyrch oll yn dyddio'n ôl i oddeutu 1800. Roedd yno hyd at 30 o staff domestig i helpu gyda'r cynnyrch toreithiog o ffrwythau, llysiau a blodau tan y 1920au. Cynlluniwyd adeiladau'r ffermydd o gwmpas cyfres o iardiau.

Mae Llanerchaeron wedi aros bron yn ddigyfnewid drwy'r canrifoedd. Cymerwyd gofal i sicrhau bod y gwaith adfer a wnaed yn ddiweddar yn cydweddu â natur yr adeiladau wrth fynd ati i ail-greu stad fechan sydd nid yn unig yn gynhyrchiol ond hefyd yn hardd iawn. Gallwch gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am fanylion yngln â'r oriau agor (rhif ffôn: 01545 570200).

Talsarn

Dyma bentref bach a godwyd o gwmpas man croesi'r afon Aeron. Ar un adeg cynhelid ffeiriau gwartheg a cheffylau yn Nhalsarn. Roedd y pentref hefyd ar drywydd llwybr y Porthmyn.

ochre lime wash gives a soft shading effect to help the house blend into the landscape. Nash went on to design a new wing at Buckingham Palace and to lay out Regent's Park and Regent Street in London.

As was usual for the period, the walled gardens are located away from the mansion. Both pleasure and productive gardens date from about 1800. Up to 30 domestic staff helped a rich variety of fruit, vegetables and flowers to flourish here until the 1920's. The farm buildings are arranged in a series of yards.

Llanerchaeron has survived almost unchanged. Sensitive restoration work has been carried out in recent years to recreate a beautiful and productive small working estate. Contact the National Trust for admission details (tel: 01545 570200).

Talsarn

Small village at a crossing of the Aeron. Cattle and horse fairs were once held at Talsarn. The village was also on a Drovers route.

The Norman's built a Motte and Bailey castle at Trefilan. The mound, shrouded by trees, lies close to the main road north of Talsarn. The Lord Rhys (Rhys ap Gruffyd) later established his rule over south Wales in the late 12th century. He was a strong supporter of the Church, founding a

© David Weir

© Melvin Grey

© Hawlfraint y Goron. Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2009.
© Crown copyright. Ceredigion County Council, 100024419, 2009.

Adeiladodd y Normaniaid gastell tomen a beili yn Nhrefilan. Saif y domen, sydd bellach o'r golwg yn y coed, wrth ymyl y brif ffordd i'r gogledd o Dalsarn. Yn ddiweddarach, Yr Arglwydd Rhys (Rhys ap Gruffudd) a arglwyddiaethai dros dde Cymru ddiwedd y 12fed ganrif. Roedd yn gefnogwr pybyr i'r Eglwys a sefydlodd leiandy Sistersaidd ger Llanllyr ym 1180. Saif plasty bychan yn dyddio'n ôl i'r

Cistercian nunnery at nearby Llanllyr in 1180. A 19th century country house now occupies this site.

The Red Kite can often be seen hovering in the skies above Talsarn.

bedwaredd ganrif ar bymtheg ar y safle bellach.

Mae'r barcud coch i'w weld yn hedfan uwchlaw Talsarn yn aml.

Silian

Saif pentref Silian ar y tir uchel rhwng dyffrynnoedd afon Aeron ac afon Teifi. Â'r llwybr drwy Dir Comin Silian. Mae'r rhos a welir yno yn enghraifft dda o'r cynefin gwerthfawr yma sy'n gartref i fywyd gwyllt.

Mae siâp mynwent Eglwys Sant Silian, sydd ar ffurf cylch, yn dynodi ei chysylltiadau Celtaidd. Ar un adeg safai carreg Gristnogol gerfiedig, yn dyddio'n ôl i'r nawfed neu'r ddegfed ganrif, yn y fynwent; fe'i symudwyd bellach i'r festri. Dywedir ar lawr gwlad y gwelwyd 'Cannwyll Corff' yn yr Eglwys yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg: sef golau a roddai, yn ôl y sôn, ryw fath o rag-rybudd bod yna farwolaeth ar ddigwydd.

Ar y ffordd i Lanbedr Pont Steffan cewch olygfeydd gwych o ddyfryn Afon Dulas a Thr Derry Ormond.

Llanbedr Pont Steffan

Llanbedr Pont Steffan ger croesfan dros yr Afon Teifi. Gwelodd y Normaniaid bwysigrwydd y safle ac aed ati i godi castell i'w amddiffyn. Mae'r domen i'w gweld o hyd ar dir Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Dyma Goleg hynaf Cymru ac fe'i sefydlwyd ym 1822 gan Thomas Burgess, Esgob Tyddewi.

Ers ei dyddiau cynharaf mae Llanbedr Pont Steffan yn dal i ffynnu fel tref farchnad a phrifysgol.

Llifa afon Teifi i ran ddeheuol y dref. Cafodd gydnabyddiaeth ryngwladol yn ddiweddar fel darpar Ardal Gadwraeth Arbennig yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae'r Teifi yn gynefin i'r dwrgi.

Silian

The village of Silian occupies the higher ground between the Aeron and Teifi Valleys. The path crosses Silian Common. Its 'rhos' pasture is a good example of this valuable wildlife habitat.

The circular churchyard of St Silian's Church denotes its Celtic origins. An inscribed Christian stone, dating from the ninth or tenth centuries, once stood in the churchyard; it now lies in the vestry. The Church was the scene of a 19th century story of a 'Corpse Candle': a strange light that is reputed to give advance warning of a death.

The route towards Lampeter gives views over the valley of the Afon Dulas and Derry Ormond Tower.

Lampeter

Lampeter has developed near a bridging point on the River Teifi. The Normans recognised the importance of the crossing and built a castle to protect it. The castle mound can still be seen within the grounds of the University College Lampeter. The College is Wales' oldest college, founded in 1822 by Thomas Burgess, Bishop of St David's.

From its ancient origins, Lampeter today thrives as market and university town.

The River Teifi flows along the southern

© Andy Rouse

part of the town. The river has gained international recognition as a candidate Special Area of Conservation (SAC) under European legislation. The Teifi is a haven for the otter.

Gwybodaeth Dwristaidd		*Tourist Information*
Aberystwyth	01970 612125	Aberystwyth
Aberaeron	01545 570602	Aberaeron
Borth	01970 871174	Borth
Aberteifi	01239 613230	Cardigan
Ceinewydd	01545 560865	New Quay

Gwefannau
Cyngor Sir Ceredigion

Ceredigion County Council websites

www.ceredigion.gov.uk
www.ceredigioncoastpath.org.uk

Cludiant Cyhoeddus:
Am wybodaeth: 0871 200 22 33

Public Transport:
Information: 0871 200 22 33

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag

Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad,
Adran Gwasanaethau
Amgylcheddol a Thai,
Cyngor Sir Cigion,
Penmorfa, ered
Aberaeron,
SA46 0PA

For further information contact

Coast and Countryside Section,
Department of Environmental
Services and Housing, Ceredigion
County Council, Penmorfa,
Aberaeron,
SA46 0PA

© Melvin Grey

Cofiwch ddilyn y Côd Cefn Gwlad.

Please remember to follow the countryside code.

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Gyngor Sir Ceredigion, 2009 ©

Designed and produced by Ceredigion County Council, 2009 ©

Y Cerddwyr
The Ramblers

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales